

Gofal plant yng Nghymru

Gorchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau

Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu gan Cymru Ifanc – Tachwedd 2025

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru.

Menter gan Plant yng Nghymru yw Cymru Ifanc sy'n ymhelaethu ar ac yn cefnogi lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru i gael eu clywed, i gael eu gwranddo arnynt ac i gael dylanwad ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; wedi'i ategu gan CCUHP a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc. Ein nod yw gwneud hyn drwy sicrhau bod gan bobl ifanc gyfleoedd i gymryd rhan a chodi materion sy'n bwysig iddyn nhw; sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan lunwyr penderfyniadau, swyddogion polisi, swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan Cymru Ifanc hanes sefydledig o sbarduno agendâu hawliau, ymgysylltu a chyfranogiad plant a phobl ifanc ar lefel Cymru gyfan. Rydym yn arddel dull partneriaeth cydlynol o weithio sy'n cwmpasu plant, pobl ifanc a phartneriaid o ystod o sectorau a sefydliadau, er mwyn cefnogi hawliau a chyfranogiad plant; gan sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth wraidd yr holl benderfyniadau a wneir. Ein ffocws yw galluogi lleisiau plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u gwranddo ledled Cymru. 'Cael Llais – Cael Dewis.'

Cefndir

Nod yr ymgysylltiad hwn â phlant a phobl ifanc oedd clywed eu barn ar Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.

Roedd Llywodraeth Cymru eisiau clywed barn plant a phobl ifanc ar newidiadau a oedd yn cael eu cynnig i sut mae gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau yn cael eu cofrestru yng Nghymru. Ceisiodd Llywodraeth Cymru hefyd glywed barn plant a phobl ifanc ar ddatblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod opsiynau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion ar gael i deuluoedd yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru eisiau gwybod beth mae plant a phobl ifanc yn ei ystyried yn bwysig er mwyn defnyddio hyn i lywio eu gwaith.

Digwyddodd yr ymgysylltiad hwn â phlant a phobl ifanc rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025.

Y cynllun ymgysylltu cychwynnol oedd cael 2 sesiwn ymgysylltu ar-lein gyda phlant a phobl ifanc rhwng 10 a 14 oed o bob cwr o Gymru a sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda dysgwyr o ysgol uwchradd. Cysylltwyd ag o leiaf 50 o leoliadau/sefydliadau gwahanol ledled Cymru ac ar draws awdurdodau lleol i wahodd plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn sesiwn ymgysylltu ar-lein. Fodd bynnag, nid oedd y nifer a gymerodd ran yn y sesiwn yn galonogol.

Yna diwygiwyd y cynllun ymgysylltu i sesiynau wyneb yn wyneb mewn 3 lleoliad penodol. Darperir gwybodaeth am y lleoliadau a nifer y cyfranogwyr isod.

Lleoliad	Dyddiadau	Nifer y Cyfranogwyr
Abertawe	22 ^{ain} Hydref 2025	12
Aberdaugleddau	24 ^{ain} Hydref 2025	21
Powys	10 ^{fed} Tachwedd 2025	8

Cymerodd cyfanswm o 41 o bobl ran a rhoi eu mewnbwn drwy gydol y broses hon.

Methodoleg

Nod y fframwaith cyfranogiad a ddefnyddiwyd ar gyfer y prosiect hwn oedd hwyluso'r lle gorau posibl i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed yn ogystal â sicrhau bod effaith a dysgu o'r broses yn cael eu bwydo'n ôl iddynt er mwyn galluogi arfer gorau mewn cyfranogiad.

Roedd yr ymgysylltiad yn cynnwys gweithdy 75 munud a gyflwynwyd mewn 3 lleoliad yn Aberdaugleddau, Powys ac Abertawe.

Cynlluniwyd y sesiynau i gasglu mewnwelediadau gan y bobl ifanc ynghylch eu barn ar rai o'r newidiadau arfaethedig i Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau.

Dechreuodd yr hwylusydd drwy gyflwyno pwnc yr ymgysylltiad. Yna atgoffwyd y plant a'r bobl ifanc am gynnwys yr Hysbysiad Preifatrwydd a'u hawl i gymryd rhan wirfoddol yn ogystal â gwybodaeth yn unol â'r hysbysiad a ddarparwyd. Unwaith y gwnaed hyn, dechreuodd y sesiwn ymgysylltu.

Prif Gwestiynau

Nod yr ymgysylltiad hwn oedd deall barn ac adborth plant a phobl ifanc ar 4 maes allweddol:

1. Newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau sy'n ymwneud â hyfforddi a thiwtora
2. Newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau sy'n ymwneud â phlant 2 oed ac iau
3. Barn gyffredinol ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn gofrestredig neu'n anghofrestredig
4. Cyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol
5. Effaith y newidiadau hyn ar bobl

Yn yr adran hon, byddwn yn edrych ar y gwersi ar gyfer pob maes allweddol o'r ymgynghoriad.

Maes 1: Newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau sy'n ymwneud â hyfforddi a thiwtora

Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan wedi bod yn rhan o ryw fath o raglen/gweithgaredd hyfforddi neu diwtora. Mae rhai enghreifftiau neu weithgareddau yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn cynnwys dawns, gymnasteg, pêldroed, celf a chrefft, dosbarthiadau crefyddol, dosbarthiadau iaith ac eraill.

Abertawe

Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc a oedd wedi profi gweithgareddau hyfforddi a thiwtora fel arfer yng nghwmni rhiant tan o leiaf 5 oed. Rhannodd un person ifanc eu bod wedi mynychu ysgol Arabeg heb riant am 2 awr yn 3 oed.

Pan ofynnwyd iddynt a ddylai fod rheolau gwahanol ar gyfer hyfforddi a gofal plant, roedd y bobl ifanc a gymerodd ran o'r farn y dylai fod rheolau gwahanol, ond i rai roedd hyn yn dibynnu ar ffactorau penodol fel oedran, gweithgaredd a hyd. Eu rhesymeg dros hyn oedd y syniad bod hyfforddi/thiwtora yn aml yn weithgareddau mwy corfforol/egniol tra bod gofal dydd yn cael ei ystyried yn fwy o brofiad gofalu, goruchwyllo, eisteddog gyda'r prif nod o gadw plant yn ddiogel.

I rai pobl ifanc, ystyriwyd bod gofal plant yn wahanol gan nad yw rhieni fel arfer yn bresennol, a gall rhieni fod yn bresennol yn aml mewn sesiynau hyfforddi a thiwtora. Fe wnaethon nhw rannu eu bod nhw'n teimlo y dylid cyfyngu'r oriau ar gyfer plant iau gan fod 2 awr yn gyfnod rhy hir i blant dan 2 oed.

Roedd gwahaniaethau barn ynghylch pa mor hir y dylai person o dan 4 oed allu mynychu sesiynau hyfforddi ac a ddylai cofrestru fod yn ofynnol. I rai, roedd 2 awr yn teimlo fel cyfnod rhy hir i blant iau. Dylid cofrestru unrhyw raglen sy'n hirach na hynny. Ac roedd angen cofrestru'r hyn a ystyriwyd yn weithgareddau

risg uwch fel gweithgareddau chwaraeon, yn eu barn nhw, yn hytrach na darparwyr gwasanaethau meithrinfa a ystyrid fel rhai sy'n darparu gweithgareddau llai peryglus.

Nodwyd ymddiriedaeth fel ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau. Yn aml, ystyrid bod pobl oedd yn aelodau o'r teulu neu'n adnabyddus i'r rhieni trwy gysylltiadau cymunedol yn fwy dibynadwy o'i gymharu â darparwyr gwasanaeth anhysbys/anghyfarwydd. Nododd y bobl ifanc hefyd y byddai penderfyniadau ynghylch yr hyd amser priodol ar gyfer gweithgaredd hefyd yn cael eu dylanwadu arnynt gan lefel yr ymddiriedaeth sydd gan rieni yn y person sy'n darparu'r gwasanaethau.

O ran yr oedran y dylai plentyn allu ymdopi â hyfforddiant/gweithgareddau diwrnod llawn, cafodd y bobl ifanc ymatebion cymysg yn amrywio o 8 i 10 i 12. Byddai'r math o weithgaredd sy'n cael ei drafod yn dylanwadu ar eu penderfyniad ynghylch a fyddai diwrnod cyfan yn iawn. Er enghraifft, cafodd diwrnod cyfan o bêl-droed 'ie' pendant tra bod diwrnod cyfan o fathemateg yn 'na' pendant. Teimlai rhai o'r bobl ifanc y gallai'r presenoldeb fod drwy'r dydd pe bai mwy nag un gweithgaredd i roi cymysgedd o bethau.

Aberdaugleddau

Rhannodd y bobl ifanc yn y sesiwn hon y dylai gofal plant gael rheolau gwahanol o'i gymharu â hyfforddi a dysgu. Ystyriwyd gofal plant fel gofalu am blentyn, ac roedd hyfforddi a thiwtora yn cael eu hystyried fel mannau dysgu.

Yn ôl iddyn nhw, mae gofal plant hefyd yn wahanol oherwydd nad yw rhieni fel arfer yn mynd i fod yn bresennol yn y gofod hwnnw. Ond, gyda hyfforddiant, gallai rhieni fod yn bresennol pe dymunant. Rhannodd rhai o'r bobl ifanc, yn eu barn nhw, os nad yw rhiant plentyn yn bresennol, y dylid cyfyngu ar nifer oriau'r sesiwn/gweithgareddau. Cytunodd y rhan fwyaf y dylai fod terfyn o ddwy awr ar gyfer plant 4 oed ac iau. Rhannodd rhai pobl ifanc y dylai fod yn iawn ymestyn yr amser os yw'r rhieni'n rhoi caniatâd i wneud hynny, ond i eraill, roeddent yn teimlo bod dwy awr yn gyfnod eithaf byr o amser.

Roedd rhai o'r bobl ifanc yn teimlo y byddai cael gweithgareddau gwahanol i dorri diwrnod hir yn beth da. Dywedodd un person ifanc y byddai'n dibynnu ar hyd y sesiwn o ran a yw seibiant yn y gweithgaredd yn angenrheidiol neu'n ddefnyddiol.

Powys

Rhannodd y rhan fwyaf o blant ym Mhowys eu bod yn credu y dylai'r un rheolau fod yn berthnasol i bawb. Dywedodd rhai ohonyn nhw ei fod yn dibynnu ar y math o weithgaredd ac am ba hyd

mae'r plant a'r bobl ifanc yno. I'r plant hyn, fe wnaethon nhw rannu y dylai fod rheolau gwahanol os oes gweithgareddau gwahanol yn cael eu cynnal.

Fe wnaethant hefyd rannu y byddai a oedd rhiant yn bresennol ar safle'r gweithgaredd ynghyd â lefelau risg y gweithgaredd yn dylanwadu ar y math o reolau y dylid eu gorfodi. Byddai presenoldeb rhiant yn gwneud y lle yn fwy diogel. Ychwanegon nhw, os nad yw'r rhieni'n bresennol, y gallai fod angen rhoi rhai mesurau diogelwch neu fesurau ychwanegol ar waith. Byddai gweithgareddau corfforol fel pêl-droed gyda photensial ar gyfer damweiniau yn cael eu hystyried yn risg uwch o'i gymharu â gwarchod plant.

Rhannodd un person ifanc eu bod yn teimlo y gallai cofrestru ar gyfer darparwyr hyfforddi a thiwtora fod yn beth da "ond nid yw'n ddefnyddiol os nad oes dilyniant neu bethau felly".

Ar gyfer y grŵp oedran iau hwn, roedd yna deimlad y dylai unrhyw ddarparwr gwasanaeth i blant fod wedi'i gofrestru, hyd yn oed os ydynt yn darparu gwasanaethau am ddwy awr yn unig – "dylen nhw fod wedi'u cofrestru beth bynnag". Rhesymeg y bobl ifanc hyn yw, efallai os ydyn nhw wedi'u cofrestru, bod hynny'n golygu ei bod hi'n fwy diogel i'r plentyn. Byddai ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr hyfforddi a thiwtora gofrestru hefyd, ym marn y plant hyn, yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r rhieni bod y "llywodraeth wedi dweud eu bod yn gydnabyddus".

I rai o'r plant, roedden nhw'n teimlo, os yw'r gwasanaeth ar gyfer pobl dan 4 oed am ddwy awr neu lai, yna mae peidio â bod wedi cofrestru yn dderbyniol os oes camera diogelwch yn yr adeilad. Fel hyn, os bydd rhywbeth yn digwydd, gellir cael mynediad at y camerâu diogelwch i ganfod beth ddigwyddodd. Awgrymodd y plant hefyd y dylai fod mwy nag un oedolyn yn yr ystafell bob amser, yn dibynnu ar faint o blant sy'n bresennol. Roedd hon yn ffordd o sicrhau bod rhyw fath o wirio a chydbwyso wrth weithio gyda'r plant.

Wrth feddwl am hyfforddiant drwy'r dydd, roedd y rhan fwyaf o'r plant yn teimlo bod hynny'n rhy hir, yn enwedig i blant 4 oed. I rai, roedd yn dibynnu ar y gweithgaredd. Byddai'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n well ganddyn nhw seibiant rhyngddynt neu weithgaredd ymlaciol rhyngddynt.

Yn eu geiriau eu hunain:

- *"Byddwn i'n dweud y dylen nhw gael eu cofrestru hyd yn oed os mai dim ond dwy awr ydyw, dylen nhw gael eu cofrestru beth bynnag."*
- *"Dylen nhw fod yn cofrestru hyfforddwyr yn bendant. Mae angen llawer o amser arnyn nhw. Dw i'n cofio i mi wneud clwb pêl-droed y tu allan i lle rydyn ni. A dydw i ddim yn meddwl ei fod wedi'i gofrestru fel neb yr hyfforddwyr, does dim byd i ddweud eu bod nhw mewn gwirionedd yn glwb pêl-droed. Gallai fod fel, rydych chi'n jyst cyrraedd ac yn dweud, ie. Ac maen nhw'n gwneud i chi dalu llawer amdano."*
- *"Meddyliwch, os mai pêl-droed yw e, er enghraifft, gallai hynny fod yn llawer mwy peryglus i'r plentyn na chael ei warchod am gwpl o oriau."*



- *“Os yw'n gamp gorfforol, dylai'r rhieni ddisgwyl y gallen nhw gael eu hanafu wrth ei wneud fel rygbi neu rywbeth. Ond fyddwch chi ddim yn disgwyl, os ydyn nhw'n gwneud fel meithrinfa ddydd neu rywbeth, y gallen nhw gael eu hanafu'n ddrwg oni bai eu bod nhw'n jyst baglu.”*
- *“Mae'n dibynnu. Oherwydd os yw fel criw o blant bach sy'n dal i gael eu dannedd, mae ganddyn nhw siawns o frathu ei gilydd oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod beth sy'n iawn neu'n anghywir. Ond os yw ar gyfer plant 4 neu 5 oed, ddylech chi ddim bod yn cael eich brifo'n ddifrifol mewn gwirionedd.*
- *“Dw i'n meddwl bod angen iddyn nhw fod wedi cofrestru os ydyn nhw'n gwneud, fel, busnes. Ond os nad ydyn nhw wedi cofrestru, ac yna maen nhw'n gwneud eu busnes. Dwi ddim yn meddwl y dylen nhw gael caniatâd i wneud hynny o gwbl.”*
- *“Dw i'n meddwl ei bod hi'n iawn os nad yw wedi'i gofrestru pan mae e'n rhywbeth fel clwb celf a chrefft. Ond os nad ydyn nhw wedi cofrestru ar gyfer gweithgareddau cyswllt yna efallai na fydd eu rhieni wir yn ymddiried.”*
- *“Dwi ddim yn meddwl fod pobl o dan 4 oed am ddwy awr mor ddrwg â hynny os nad ydyn nhw wedi cofrestru, cyn belled â bod ganddyn nhw gamerâu diogelwch. Yna os bydd rhywbeth yn digwydd, fe allan nhw wirio'r camera diogelwch i weld beth ddigwyddodd.”*
- *“Dylai fod mwy nag un person yn yr ystafell, yn dibynnu ar faint o nifer sydd yna. Fel os nad ydyn nhw'n parchu, yna byddwch chi eisiau rhywun arall yno.”*
- *“Rwy'n credu mai dim ond un diwrnod y mae angen i blant ei wneud, gweithgaredd diwrnod llawn unwaith yr wythnos. Ond os yw'n mynd i fod yn ddiwrnod llawn fel o 9 tan 5 mae'n iawn. Unrhyw ddechrau cynharach na hynny neu ddiwedd yn hwyrach, wyddoch chi, mae'n rhaid i blant dreulio amser gyda'u teulu neu dreulio amser gartref o hyd.”*

Maes 2: Newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau sy'n ymwneud â phlant 2 oed ac iau

Abertawe

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn y grŵp hwn yn rhannu'r farn bod plentyn 2 oed ac iau yn rhy ifanc i gael ei adael gyda rhywun heblaw ei rieni. Mewn rhai achosion, byddai'n fwy derbyniol pe bai'r plentyn yn gyfarwydd â'r bobl a allai fod yn gofalu am y plentyn, er enghraifft teulu neu aelod hysbys o'r gymuned. Lle nad yw'r opsiynau hyn ar gael neu'n hygyrch, maent yn ystyried defnyddio gwasanaeth cofrestredig yn opsiwn gwell gan fod cofrestru yn helpu i roi ymdeimlad o gyfreithlondeb iddynt a lefel o ymddiriedaeth tuag at y darparwr gwasanaeth.

Roedd barn gymysg ynghylch y gofynion ar gyfer cofrestru gan y byddai'r rhan fwyaf yn well ganddynt i'r plentyn gael gofal gan rywun maen nhw'n ei adnabod. Daeth i'r amlwg hefyd fod brodyr a chwiorydd hŷn yn aml yn camu i mewn fel gwarchodwyr plant anffurfiol i frodyr a chwiorydd/cefndryd iau. Lle byddai plant dan 2 oed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heb i'w rhiant(rhieni) fod yn bresennol, roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn teimlo bod yn well ganddynt fod gofyniad i gofrestru gan ei fod yn rhoi sicrwydd i'r rhieni y byddai eu plant mewn dwylo diogel.

Aberdaugleddau

Roedd gan y bobl ifanc yn y lleoliad hwn amrywiaeth o safbwyntiau ynglŷn â'r angen i riant fod yn bresennol ar gyfer gweithgareddau a oedd yn cynnwys plant dan 2 oed. I rai ohonyn nhw, mae'n well i ddarparwyr gwasanaethau fod yn gofrestredig os na fydd rhiant yn bresennol. Ni fuasent yn gallu ymddiried yn rhywun i ofalu am blentyn ifanc os nad ydynt wedi cofrestru. Mae bod yn gofrestredig yn rhoi'r sicrwydd iddynt y bydd diogelwch y plentyn yn cael ei sicrhau. I eraill, os yw'r rhiant yn cydsynio, yna dylai fod yn iawn i'r plentyn fod o dan ofal y darparwyr gwasanaeth heb bresenoldeb rhiant. O ran yr agwedd o'i gwneud yn ofynnol i rieni fod ar y safle wrth ddanfôn plant dan 2 oed, eglurodd y bobl ifanc a gytunodd â hyn y byddai hyn yn helpu i sicrhau diogelwch y plentyn. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno am yr angen i rieni fod ar y safle, eu rhesymeg oedd y gallai'r rhiant alw heibio i weld bod y plentyn yn iawn pan fo angen heb orfod bod yno drwy'r amser.

Powys

I'r plant o'r grŵp hwn, roedd yna ie pendant i'w gwneud yn ofynnol i gofrestru os nad oes rhieni'n bresennol. Fe wnaethant ychwanegu ymhellach y dylai unrhyw weithgareddau a

oedd yn hwy na dwyawr olygu ei bod yn ofynnol i'r darparwyr fod yn gofrestredig. Os yw rhieni o fewn yr adeilad, yn agos – mewn ystafell wahanol, dim ond coridor byr i ffwrdd, yna byddai'n iawn i rai ohonyn nhw os nad oes cofrestru. Fodd bynnag, mae hyn yn newid os yw'r pellter fel pellter coridor hir ac yn enwedig os yw'r darparwr gwasanaeth ar ei ben ei hun, yna dylai cofrestru fod yn angenrheidiol. Y syniad y tu ôl i hyn yw y byddai pellter byrrach yn ei gwneud hi'n bosibl i rieni gyrraedd yr ystafell ar unwaith pe bai eu hangen ar y plentyn ifanc.

Gan un plentyn, os mai'r teulu sy'n darparu'r gofal/gweithgaredd, yna ni dylid gorfod cofrestru gan "na fyddai'r teulu'n brifo'r plentyn". Fodd bynnag, i bobl nad ydynt yn aelodau o'r teulu, "does dim ots os ydyn nhw'n ei wneud am lai na 25 munud, mae angen iddyn nhw fod wedi cofrestru".

Mewn amgylcheddau lle mae'r rhieni'n bresennol, ni fyddai'n rhaid iddynt gofrestru gan y bydd eu rhieni'n eu gwyllo. Er enghraifft, "pan fydd grŵp chwarae yn cynnal sesiwn yn y neuadd chwaraeon i rai bach, dw i ddim yn meddwl y bydd yn rhaid iddyn nhw gofrestru oherwydd bod rhieni'n goruchwyllo ac nid eu cyfrifoldeb nhw yw e i gyd. Ond os nad ydyn nhw wedi cofrestru ac os nad yw rhieni yno... teulu, iawn, dw i'n deall hynny, ffrindiau agos iawn, iawn, dw i'n deall hynny. Ond os ydych chi'n fusnes sy'n cael eich talu, dw i'n meddwl y dylech chi gofrestru".

I'r plant hyn, mae'n gwneud gwahaniaeth os mai teulu neu ffrindiau [sy'n gofalu]. Roedd gan blentyn arall farn ychydig yn wahanol sef "ar gyfer plant iau, gyda neu heb rieni, dylen nhw fod yn gofrestredig"

Roedd y grŵp yn cytuno, gyda phlant dan ddwy oed, os yw'r rhieni o gwmpas, y gallai'r gofal fod o ansawdd gwell, oherwydd eu bod nhw'n arsylwi.

Yn eu geiriau eu hunain:

- *"Os ydych chi'n gwneud busnes neu'n cael eich talu, dw i'n meddwl y dylech chi orfod bod wedi cofrestru."*
- *"Os yw eich rhieni yno ac mae fel adran chwarae, yna byddai'n iawn, ond pan fyddwch chi heb gofrestru, fel, os mai chi sydd yno a ddim wedi cofrestru a dim rhieni o gwmpas, mae'n eithaf peryglus oherwydd gallai eich plant gael eu hanafu ac ni fydd'na rieni yno. Ac, os ydyn nhw heb eu cofrestru, mae e' chydig yn fwy peryglus. Os mai ffrind i'r teulu neu aelod o'r teulu yw e, dw i'n meddwl y bydd hynny'n iawn."*
- *"Os nad ydyn nhw wedi cofrestru, mae angen i rywun fod yn gwyllo, naill ai i oedolyn fod gyda nhw neu'n gwyllo trwy ffenestr neu rywbeth. Felly, os yw fel ystafell wydr, yna byddan nhw'n iawn. Ond os oes rhai wedi cofrestru a rhai heb eu cofrestru gyda nhw, mae hynny'n iawn oherwydd gallai'r person cofrestredig gadw llygad arnyn nhw."*
- *"Oes rhaid i athrawon fod wedi cofrestru? Beth os yw athrawon yn gwneud gweithgareddau y tu allan i'r ysgol?"*

- *“Bydd y rhieni o gwmpas os ydyn nhw'n cael eu hanafu neu rywbeth. Bydd y rhieni yno, ni fyddai'n rhaid iddyn nhw gael eu rhif ffôn i'w ffonio nhw draw. Oherwydd os ydyn nhw allan yn rhywle arall, bydd yn cymryd mwy o amser iddyn nhw gyrraedd y lleoliad y mae'r plant ynddo. Felly os ydyn nhw o gwmpas, mae rhywbeth yn digwydd, yn enwedig gyda phlant iau, mae'n haws i rieni ymyrryd yn syth.”*
- *“Tebyg iawn i'r hyn a ddywedodd hi, ond os ydych chi, os yw'r rhieni yn yr ystafell, dw i'n meddwl ei fod yn gyfleus iawn gan nad oes rhaid iddyn nhw ffonio oherwydd weithiau mae'n rhaid iddyn nhw roi'r plentyn yno, oherwydd mae'n rhaid iddyn nhw fynd, wn i ddim, i wlad arall i wneud gwaith”*

Maes 3: Barn gyffredinol ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn gofrestredig neu'n anghofrestredig

Abertawe

I'r bobl ifanc yn y grŵp hwn, roedd y ddealltwriaeth o gofrestru yn cynnwys presenoldeb mesurau diogelwch, diogelu, hyfforddiant/DPP, cymarebau priodol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Iddyn nhw, roedd gwiriadau cefndir/DBS yn rhoi ymdeimlad o ddilysrwydd o'r gwasanaethau a ddarperir ynghyd ag atebolrwydd am sicrhau gofal diogel ac o ansawdd i'r plant a ymddiriedwyd i'w gofal. Mae darparwyr cofrestredig yn cael eu gweld fel rhai sydd â chanllawiau a rheolau clir i'w dilyn sy'n chwarae rhan mewn sicrhau diogelwch a lles plant.

Wrth edrych ar yr hyn y mae bod yn anghofrestredig yn ei olygu i'r bobl ifanc, dangoswyd ymdeimlad y gallai'r darparwyr o bosibl fod yn gweithredu'n "anghyfreithlon" a/neu bod diffyg cymwysterau priodol. Tynnwyd sylw'r bobl ifanc at y ffaith bod darparwyr heb gofrestru yn y cyd-destun yr oeddem yn edrych arno hefyd yn cynnwys darparwyr nad oedd yn ofynnol iddynt gofrestru yn ôl y gyfraith. Roedd dealltwriaeth y byddai darparwyr yn cael darparu uchafswm o 2 awr o ofal, heb fod wedi cofrestru. Enillodd un o'r gweithwyr ieuencid a oedd yn bresennol drwydded hyfforddi trwy eu sefydliad ac mae bellach yn hyfforddi criced i'r bobl ifanc. Heb drwydded/cofrestru, roeddent yn deall y dylai sesiynau fod yn uchafswm o 2 awr.

Wrth drafod ymddiriedaeth, byddai llawer o'r bobl ifanc yn ymddiried mewn pobl maen nhw'n eu hadnabod fel teulu a ffrindiau. Lle nad yw'r bobl yn adnabyddus neu nad ydynt mor gyfarwydd â nhw, mae cymwysterau'n cynyddu ymddiriedaeth o'i gymharu â rhywun nad yw'n gymwys.

Pan ofynnwyd iddynt beth roedden nhw'n feddwl y byddai angen i ddarparwyr ei wneud i gael eu cofrestru, ymatebodd y bobl ifanc y byddai angen i ddarparwyr gael mesurau diogelwch a diogelu ar waith. Mae cofrestru sy'n cynnwys gwiriadau yn helpu i ddilysu a chyfreithloni'r darparwyr gwasanaeth o safbwynt rhieni.

Aberdaugleddau

Rhannodd y bobl ifanc yn y lleoliad hwn fod cael cofrestru yn golygu cael cydnabyddiaeth. Mae'n debyg y byddai darparwr sydd wedi'i gofrestru yn gymwys ar gyfer y rôl y mae'n ei gwneud – cymwysterau ar bapur ynghyd â phrofiad o weithio gyda phlant. Yn eu golwg nhw, mae darparwr sydd wedi'i gofrestru yn dangos eu bod yn gyfrifol ac yn debygol o fod yn atebol. Mae cofrestru hefyd yn helpu rhieni i deimlo'n gyfforddus ac yn dawel eu meddwl ynghylch diogelwch a lles eu plentyn.

O ran rhai o'r pethau y gallai fod angen i ddarparwr cofrestredig eu gwneud, mae'r bobl ifanc yn rhannu bod cymhareb plant i staff y mae'n rhaid iddynt lynu ati, yn enwedig wrth drafod plant iau. Bydd angen glynu wrth y gymhareb hon hefyd wrth ddarparu gofal i blant ag anableddau, awtistiaeth a/neu ADHD. Nododd y bobl ifanc hefyd, yn ogystal â chymhwyster a chofrestru, ei bod hefyd yn bwysig iawn i bobl sy'n gweithio gyda phlant fod â'r bersonoliaeth gywir. "Mae angen iddyn nhw fod yn fedrus o ran amynedd" oedd rhywbeth a rannwyd ychydig o weithiau.

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd bod heb gofrestru yn ei olygu, rhannodd y bobl ifanc ei bod yn debyg nad oes gan ddarparwr heb gofrestru gydnabyddiaeth gyfreithiol i wneud y gwaith maen nhw'n ei wneud. Mae'n debygol eu bod nhw hefyd yn anghymwys ac yn ddibrofiad. Gan nad ydyn nhw wedi cofrestru, ni fydden nhw wedi cwblhau'r ffurflenni a'r gwiriadau sy'n ofynnol gan ddarparwyr cofrestredig megis ardystiadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd absenoldeb y gwiriadau a'r cydbwyseddau a ddarperir mewn fframwaith cofrestredig, ym marn un person ifanc, yn ei gwneud yn "fwy o risg y gallent fod yn dreisgar" gan ei gwneud hi'n anoddach ymddiried mewn darparwr gwasanaeth heb ei gofrestru.

Powys

I'r plant o'r grŵp hwn, roedd bod wedi cofrestru yn golygu bod y darparwr wedi dweud yn ysgrifenedig eu bod yn darparu gwasanaethau penodol ac yn "gallu gofalu am blant". Mae'r bobl hyn wedi dweud wrth y llywodraeth a rhieni mai dyma'r gwaith y maen nhw'n gallu ei wneud.

Yn ôl eu dealltwriaeth nhw, efallai nad yw darparwyr heb eu cofrestru yn cymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i sicrhau diogelwch a lles y plant yn eu gofal. Felly, "os bydd rhywbeth yn digwydd, efallai na fyddan nhw'n adrodd yn ôl i ddweud wrth y bobl sydd angen gwybod" ac "efallai na fyddan nhw'n gwyllo'r plant yn iawn".

Mae teimlad sylfaenol nad yw darparwyr heb eu cofrestru o bosibl yn dilyn rhai rheolau. Mae hyn er gwaethaf cael yr esboniad fod yna rai darparwyr nad oes angen iddynt gofrestru ar hyn o bryd.

Ar y cyfan, rhannodd y plant eu bod yn credu oni bai bod y person yn aelod o'r teulu, y dylai orfod cofrestru os ydynt yn darparu gwasanaethau i blant.

Yn eu geiriau eu hunain:

- *“Dw i’n meddwl y dylech chi orfod cofrestru – ni ddylai fod rhaid i chi fod wedi cofrestru os ydych chi’n aelod o’r teulu. Felly, os gofynnaf i fy modryb ddod i fy ngwarchod i – mae hynny’n iawn. Ond os yw’n rhywun nad yw’r plentyn yn ei adnabod neu os yw’n rhywun fel gwarchodwr plant, neu hyd yn oed os ydyn nhw’n eu hadnabod, dylen nhw fod wedi’u cofrestru.”*
- *“Efallai y byddai plentyn yn ymddiried ychydig mwy yn aelod o’r teulu, neu byddai’r oedolyn yn ymddiried mwy yn aelod o’r teulu. Ac i fod yn onest, dydw i ddim yn meddwl y byddai aelod o’r teulu yn gwneud unrhyw beth i blentyn.”*
- *“Dydw i ddim yn meddwl bod rhaid i deulu gofrestru. Dywedwch, pe byddwn i a hanner fy nheulu’n mynd i rywle na all fy mrawd iau fynd iddo. A ninnau’n gofynd i fy ewythr edrych ar ei ôl. Dwi ddim yn meddwl y byddai’n rhaid iddo gofrestru neu y byddai’n rhaid iddyn nhw gofrestru oherwydd dim ond am un diwrnod mae e, ond os ydyn nhw’n ei wneud fel busnes ac maen nhw’n gofalu am wahanol bobl y tu allan i’r teulu, dw i’n meddwl bod yn rhaid iddyn nhw gofrestru.”*
- *“Dydw i ddim yn meddwl ei fod o wir yn bwysig oherwydd weithiau gallwch chi feddwl, fe wnaethoch chi ei drefnu ac yna rydych chi’n anghofio. O, fe wnes i anghofio gofyn i warchodwr plant ac yna mae un o aelodau eich teulu ar gael. Iawn.”*
- *“Ddylen nhw ddim gorfod cofrestru fel y rhan fwyaf o bobl. Os ydyn nhw’n gwneud hynny bob mis, yna byddai’n rhaid iddyn nhw gofrestru. Ond os nad oedden nhw’n hoffi un o’r blaen ac yn methu mynd gyda chi, ond ni fyddai’n rhaid i chi gofrestru.”*
- *“Dw i’n meddwl, os ydych chi’n talu rhywun i warchod plant, dylai fod yn rhaid iddyn nhw gofrestru oherwydd mae’n wahanol i helpu rhywun. Ie. Fel, talu ac mae’n fwyaf tebygol o fod yn rhywbeth sy’n digwydd droeon.”*

Maes 4: Cyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (VAS)

Abertawe

Roedd y bobl ifanc yn y grŵp hwn yn deall gwirfoddoli fel “llafur cariad”. Roedd rhywfaint o ddiddordeb mewn haen ganolradd rhwng bod yn gofrestredig a bod yn anghofrestredig,

Yn ôl eu dealltwriaeth nhw, er mwyn bod yn rhan o'r VAS (Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol/*Voluntary Approval Scheme*), dylai'r person fod yn 18 oed neu'n hŷn a rhaid iddynt fod wedi pasio gwiriad DBS. Roeddent hefyd yn cydnabod, er mwyn bod yn rhan o'r VAS, y byddai angen i ddarparwyr fodloni rhai meini prawf sylfaenol ac, er mai Arolygiaeth Gofal Cymru fyddai'r corff a fyddai'n goruchwyllo hyn, ni fyddent yn cynnal unrhyw arolygiadau o'r darparwyr a'u hadeiladau.

I'r bobl ifanc, fodd bynnag, ni fyddai'r ffaith fod darparwr yn rhan o'r VAS yn gwneud gwahaniaeth iddyn nhw, gan y bydden nhw'n ymddiried mewn darparwr nes y profir fel arall.

Aberdaugleddau

Fe wnaethon ni gyflwyno cysyniad y VAS i'r bobl ifanc. Rhannodd y bobl ifanc y byddai'r cynllun yn gam da i annog darparwyr i weithio tuag at gofrestru llawn. Gallai'r VAS fod yn rhywbeth defnyddiol i athrawon cerddoriaeth a mathemateg. Fe wnaeth y bobl ifanc nodi y byddai'n bwysig ystyried cefndir yr ymgeiswyr – oherwydd os yw'n wirfoddol, byddai'n bwysig sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud, yn enwedig gyda phlant. Yn absenoldeb cofrestru llawn, gallai'r VAS helpu rhieni i ymddiried yn fwy yn y darparwyr gan ei fod yn cael ei gydnabod gan y llywodraeth. Codwyd hefyd, os cyflwynir y VAS, y bydd angen ei hysbysebu'n dda i annog mwy o bobl i ymuno.

Powys

Roedd y plant yn y grŵp hwn o'r farn y byddai'r VAS yn ddefnyddiol i bobl nad ydynt eisoes wedi cofrestru. Rhannodd rhai ohonynt y byddai'r VAS yn debygol o fod o ddiddordeb i grwpiau bach sydd newydd ddechrau, fel grwpiau gwirfoddol a gwahanol grwpiau o bobl ym Mhowys sy'n cynnal gweithgareddau i blant.

Un peth a nodwyd oedd sicrhau, wrth roi'r VAS ar waith, fod diogelwch plant yn cael ystyriaeth ym mhob agwedd. Gofyniad penodol oedd sicrhau “nad oes ganddyn nhw bethau tebyg i arfau yn y lleoliad [lle cynhelir y sesiynau neu ofal]”. Rhannodd y plant hefyd y byddai'n bwysig gwirio nad oes gan y bobl gofnod troseddol. “Mae jyst yn cadw'r plentyn yn fwy diogel”.

Yn ôl un plentyn, dylen ni fod yn “annog pobl drwy ddweud wrthyn nhw, os ydyn nhw wedi cofrestru, mai nhw fyddai'r bobl fyddai'n well gan bobl eu dewis”.

Yn eu geiriau eu hunain:

- *“Grwpiau bach sydd newydd ddechrau – grwpiau gwirfoddol” (efallai y byddai ganddyn nhw ddiddordeb yn y VAS)*
- *“Pobl sy’n archwilio pethau newydd”*
- *“Efallai y byddai athrawon sy’n gwneud gweithgareddau y tu allan i’r ysgol eisiau ymuno”*
- *“Byddwn i’n dweud am hynny’n wirfoddol – nid gwirfoddol ond dylid ei gofrestru’n briodol”*
- *“Mae angen i ni wirio a sicrhau nad oes ganddyn nhw bethau sy’n debyg i arfau a phopeth felly – fel cyllyll miniog iawn”*
- *“Ac os yw hynny’n ei ddangos arno (y VAS), fel, rhywbeth sy’n dweud, rydw i eisiau gwarchod eich plentyn, os yw’n dangos hynny, maen nhw’n fwy tebygol o gael swydd nag os ydyn nhw’n cofrestru”*

Maes 5: Effaith y newidiadau hyn ar bobl

Wrth edrych ar effaith y newidiadau arfaethedig ar bobl, dyma rai o’r pwyntiau a godwyd gan y plant a’r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgysylltiad hwn.

Risgiau

Rhai o’r risgiau posibl a nodwyd oedd y gallai’r newidiadau ei gwneud hi’n anoddach i deuluoedd gael mynediad at ofal pe bai’n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gofrestru gan y gallai hyn ddylanwadu ar faint mae’n ei gostio. Asesodd y plant a’r bobl ifanc y gallai’r gofyniad hwn, hyd yn oed gyda rhaglen wirfoddol, gynyddu’r costau gan ei gwneud hi’n anodd i bobl fforddio’r gwasanaethau hyn i’w plant. Gan sôn am risgiau, roedd y cyfranogwyr o’r grŵp oedran iau yn eithaf pryderus am beryglon rhai gweithgareddau, yn enwedig i blant iau. Nododd un plentyn ei bod yn bwysig i unrhyw un sy’n darparu gwasanaethau neu weithgareddau i blant gael gwiriad cefndir "rhag ofn eu bod yn gwneud rhywbeth anghyfreithlon".

Costau

Ar draws y drafodaeth, tynnodd y plant a’r bobl ifanc sylw at y tebygolrwydd y byddai costau cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn cynyddu, oherwydd pe bai’n rhaid i unrhyw un gofrestru, gallai ei gwneud hi’n ddrytach i ddarparwyr gynnig eu gwasanaethau gan arwain atynt yn cynyddu eu prisiau. Roedd pryderon ynghylch cofrestru a’r gost a fyddai’n gysylltiedig â hynny a sut y byddai hyn yn effeithio ar yr arian y gallai darparwyr ei fuddsoddi yn eu gwaith ei hun. Dywedwyd y gallai darparwyr golli arian am adnoddau, gan arwain at rieni’n talu ffioedd a oedd yn “ddrytach na’r gwaith ei hun”. Hyd yn oed gyda’r esboniadau o sut y gallai’r VAS gefnogi teuluoedd i gael mynediad at gymorth, roedd pryderon ynghylch y costau yn uchel ymhlith y plant a’r bobl ifanc.

Manteision

Er bod pryderon y gallai rhai o'r newidiadau ochr yn ochr â VAS olygu ffi a fyddai'n arwain at gostau uwch, gallai'r plant a'r bobl ifanc hefyd weld manteision posibl y newidiadau arfaethedig. Er enghraifft, cydnabuwyd y byddai'r newidiadau'n gwneud y gwasanaethau hyn yn fwy diogel i blant a phobl ifanc, yn enwedig plant iau. Byddai rhaglen VAS, ym marn llawer, yn cynyddu ymdeimlad o ymddiriedaeth rhieni tuag at y darparwyr gan fod, er nad yw'n golygu cofrestru'n llawn, rhai gofynion sylfaenol y mae angen eu bodloni. Byddai cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu cydnabod gan y "llywodraeth" yn gwneud bywydau rhieni'n haws gan y byddai'n cynyddu eu dewisiadau o ran "darparwyr dibynadwy". Dywedodd rhai o'r bobl ifanc hefyd y gallai'r VAS roi cyfle i ddarparwyr gryfhau eu sgiliau cymdeithasol a bywyd, gan hyd yn oed ddarparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith.

Y Gymraeg

Naill ai nid oedd gan y plant a'r bobl ifanc lawer o feddyliau am sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y Gymraeg, neu roeddent yn meddwl na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg. Nododd un person ifanc "os yw pobl yn dysgu Cymraeg, mae'n haws cael swyddi". Nid oedd y cyfranogwyr iau yn credu y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar y Gymraeg ond roeddent yn frwdfrydig iawn ynglŷn â chyfleu'r neges eu bod eisiau i fwy o glybiau a gweithgareddau Cymraeg fod ar gael iddynt.

Bywydau Pobl

Rhannodd y plant a'r bobl ifanc y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effaith ar wahanol agweddau ar fywydau pobl fel ar gostau byw ("problemau ariannol") pe bai ffioedd/taliadau'n cynyddu oherwydd y newidiadau; gallai gynyddu pryderon yn eu bywydau ac o bosibl effeithio ar eu teuluoedd/teuluoedd plant a phobl ifanc.

Fe wnaethant hefyd rannu y gallai cael darparwyr gwasanaeth yn cofrestru eu hunain neu hyd yn oed yn ymuno â chynllun cymeradwyo gwirfoddol helpu i gynyddu'r ymddiriedaeth sydd gan rieni yn y darparwyr gwasanaeth bod eu plant mewn dwylo diogel, yn enwedig ar gyfer grwpiau oedran iau.

Rhannodd un person ifanc ei fod yn gobeithio y byddai'r newidiadau'n helpu i greu mwy o glybiau i bobl ag anableddau.

Crynodeb

Rhannodd y bobl ifanc amrywiaeth o farn ar y pynciau a drafodwyd gyda rhai elfennau tebyg ar draws y grwpiau a rhai safbwyntiau gwahanol mewn rhai grwpiau.

Er bod ymdeimlad cyffredinol o allu ymddiried mewn darparwyr gwasanaethau cofrestredig, ymhlith rhai pobl ifanc, roedd ymddiriedaeth yn rhywbeth a gaiff ei ennill, ac yn aml yn cael ei roi i bobl yr oeddent yn eu hadnabod neu'n gyfarwydd â nhw. Dim ond yn absenoldeb y dewis hwn y maent yn edrych ar gofrestru fel rheswm i ymddiried. Ond i rai pobl ifanc, roedd bod wedi'u cofrestru a'u cydnabod gan gorff llywodraeth yn eu galluogi i ymddiried yn y darparwyr gyda'r gred mai dim ond pe byddent wedi pasio'r prosesau fetio a'r gofyniad angenrheidiol y byddent yn cael eu cofrestru.

Ymddengys bod oedran y plant a'r bobl ifanc yn ffactor sy'n dylanwadu ar eu barn. I'r plant iau, roedd diogelwch yn flaenoriaeth uchel fel y dangosir gan eu hymatebion a'u hesiamplau. Yn ddiddorol, roedd hefyd yn ymddangos bod mwy o ymddiriedaeth tuag at aelodau'r teulu a'r gred bod plant yn ddiogel gyda theulu ac oedolion maen nhw'n eu hadnabod oherwydd nad yw'r oedolion hyn yn debygol o'u brifo, o'i gymharu â dieithryn neu oedolyn llai adnabyddus. Mae ychydig bach o orgyffwrdd yn yr agwedd hon lle rhannodd y bobl ifanc o Abertawe eu bod yn fwy tebygol o ymddiried yn aelodau o'r teulu a'r gymuned yr oeddent yn eu hadnabod hyd yn oed os oedd yna ddarparwyr cofrestredig.

Chwaraeodd y math o weithgaredd a'r lefelau risg canfyddedig sy'n gysylltiedig â rhai gweithgareddau rôl bwysig i lawer o'r bobl ifanc wrth benderfynu a ddylid ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gofrestru ei hun, gan ddangos bod y cysyniad o ddiogelwch yn cael ei weld trwy wahanol lensys ar gyfer gwahanol bobl ifanc, gan ddylanwadu wedyn ar eu dealltwriaeth o fanteision darparwr cofrestredig o'i gymharu ag un anghofrestredig. Dylanwadwyd ar eu dealltwriaeth o ddiogelwch hefyd gan sawl ffactor megis eu hoedran, math o weithgaredd, lleoliad, hyd ymhlith elfennau eraill.

I rai pobl ifanc, ystyriwyd bod eglurder ynghylch disgwyliadau a dealltwriaeth rhieni o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau yn ffactorau pwysig wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles plant a phobl ifanc.

Gall y newid mewn rheolau, oni bai eu bod yn cael eu cyfleu'n glir, gymhlethu dewisiadau i rieni, ond hefyd gall rheolau sydd wedi'u symleiddio'n ormodol gynyddu risgiau.

Roedd goblygiadau posibl y newidiadau arfaethedig i gost cael mynediad at y gwahanol wasanaethau yn thema bwysig a gododd dro ar ôl tro ymhlith yr holl blant a phobl ifanc yr oeddem yn ymgysylltu â nhw. Bydd eglurder ynghylch hyn yn hanfodol i sicrhau ymgysylltiad rhieni pan fydd unrhyw newid yn digwydd.